Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**

—

Welsh Parliament
**Finance Committee**

Y Gwir Anrhydeddus Steve Barclay AS

Prif Ysgrifennydd y Trysorlys

23 Medi 2020

Annwyl Brif Ysgrifennydd y Trysorlys

**Ymchwiliad i weithredu Deddf Cymru 2014 a'r Fframwaith Cyllidol**

Ar ran y Pwyllgor Cyllid, mynegaf ein gofid eich bod wedi gwrthod ein gwahoddiad i roi tystiolaeth i'n hymchwiliad i weithredu Deddf Cymru 2014 a'r Fframwaith Cyllidol. Diolch am eich cynnig i roi ymateb ysgrifenedig i'n helpu yn ein gwaith; byddem yn ddiolchgar o'i gael.

Serch hynny, o ystyried eich cyfrifoldeb am gysylltiad y trysorlys â datganoli i Gymru, mae'r Pwyllgor o'r farn ei bod yn hanfodol clywed gennych, a byddem yn eich annog i ail-ystyried eich presenoldeb yn y cyfarfod. Fel y gwyddoch, mae Deddf Cymru wedi bod ar waith ers 2014 ac rydym o'r farn ei bod yn amser perthnasol i ystyried ei gweithrediad ac effeithiolrwydd y Fframwaith Cyllidol.

Gan gydnabod bod y pandemig cyfredol yn flaenoriaeth i chi, mae'n amlwg o'r dystiolaeth bod y ffordd y mae cyllid yn cael ei ddosbarthu i Gymru yn faes sy'n peri dryswch ac mae'n bwysig inni ystyried sut y gallai'r fframwaith cyllidol weithredu'n wahanol i sicrhau eglurder. a system cyllido dryloyw i Gymru.

Gall y Pwyllgor gynnig nifer o ddyddiadau eraill, ac mae croeso i'ch swyddogion gysylltu â Chlerc y Pwyllgor i drefnu dyddiad cyfleus.

Yn gywir,



Llyr Gruffydd AS / MS

Cadeirydd / Chair

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
0300 200 6565